

Newid y gyfraith ar y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru

**Rydyn ni eisiau eich barn am ein syniadau
ar gyfer y ddeddf newydd**

Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl erbyn **25
Mawrth 2019** os gwelwch yn dda



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru **‘Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol – cynigion ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd.’**

Chwefror 2019



Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn **ysgrifen glas normal**. Mae beth mae nhw'n feddwl ar dudalen **26**.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Cyfeiriad: Tîm Deddfwriaeth Diwygio'r Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gwefan: <https://beta.llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-trawsnewidiol>

Ebost: DeddfwriaethDiwygiorCwricwlwm@llyw.Cymru

Ffôn: 0300 062 2246



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Cyflwyniad.....	4
Beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn.....	6
Beth rydyn ni eisiau ei newid.....	8
Sut y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei drefnu.....	9
Profiadau gyrfaedd a phrofiadau gwaith.....	16
Addysg perthnasoedd a rhywioldeb.....	18
Addysg grefyddol.....	21
Yr iaith Gymraeg.....	23
Asesiad.....	25
Geiriau anodd.....	26

Cyflwyniad



Rydyn ni eisiau gwneud addysg yng Nghymru y gorau posib. I wneud hyn rydyn ni eisiau ysgrifennu **cwricwlwm** newydd a newid y ffordd rydyn ni'n gwneud **asesiadau**.



Y **cwricwlwm** ydy rhestr o bethau mae plant a phobl ifanc yn eu dysgu yn yr ysgol.



Mae **asesiadau** yn cael eu gwneud i weld pa mor dda mae plant a phobl ifanc yn ei wneud yn yr ysgol.

Rydyn ni angen gwneud y newidiadau yma oherwydd:



- Rydyn ni eisiau i blant a phobl ifanc wneud hyd yn oed yn well yn yr ysgol.



- Mae llawer o bobl yn teimlo bod y **cwricwlwm** nawr yn rhy gaeth. A dydy athrawon ddim yn gallu newid beth neu sut maen nhw'n addysgu i ffitio dysgwyr.



- Mae'r **cwricwlwm** yn hen. Roedd rhywfaint wedi cael ei ysgrifennu ym 1988.



- Fe ddylai **asesiadau** helpu dysgwyr i ddysgu, ond dydyn nhw ddim yn gwneud hynny.



I wneud y newidiadau yma rydyn ni angen deddf newydd am y **cwricwlwm** ac **asesiadau**.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein syniadau ar gyfer y ddeddf newydd.



Fe fydd y ddogfen yma yn esbonio beth rydyn ni eisiau ei newid a pham.




I gael dweud beth rydych chi'n feddwl llanwch y ffurflen ymateb a'i hanfon yn ôl inni erbyn 25 Mawrth 2019.

Beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn



Rydyn ni wedi gwneud llawer o waith ar y **cwricwlwm** newydd hyd yn hyn.



Yn 2015 fe wnaeth yr Athro Graham Donaldson ysgrifennu adroddiad o'r enw **Dyfodol Llwyddiannus**. Roedd e'n edrych ar ein **cwricwlwm** ac **asesiadau**. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi syniadau ar gyfer gwneud **cwricwlwm** newydd a gwell.



Rydyn ni wedi edrych ar lawer o adroddiadau a gwybodaeth arall am beth sydd yn cael ei addysgu mewn ysgolion.



Rydyn ni hefyd wedi meddwl am y cyngor rydyn ni wedi ei gael gan wledydd ac arbenigwyr eraill o gwmpas y byd.



Roedd llawer o bobl wedi cael dweud beth roedden nhw'n feddwl am y **cwricwlwm** newydd. Ac fe wnaethon ni ofyn i rai ysgolion yng Nghymru helpu i ysgrifennu **cwricwlwm** newydd a rhoi cynnig ar syniadau newydd. Enw'r ysgolion yma ydy **Ysgolion Arloesi**.

Ebrill

2019



Yn Ebrill 2019 fe fydd pawb yn gallu darllen y [cwriclewm](#) newydd a'r cynllun ar gyfer yr [asesiadau](#). Fe fyddwn ni'n rhoi amser i bobl gael dweud beth maen nhw'n feddwl am hyn. Fe fydd y [cwriclewm](#) newydd yn barod o Ionawr 2020.

Medi

2022

Fe fydd gan ysgolion amser i fod yn barod am y [cwriclewm](#) newydd. Fe fydd angen iddyn nhw ddechrau gweithio o'r [cwriclewm](#) newydd ym mis Medi 2022.

2026

Fe fyddan nhw yn araf yn dechrau dysgu'r [cwriclewm](#) newydd i wahanol grwpiau blwyddyn. Erbyn 2026 fe fydd pob plentyn yn cael eu dysgu gan ddefnyddio'r [cwriclewm](#) newydd.

Beth rydyn ni eisiau ei newid



Rydyn ni eisiau i'r **cwricwlwm** newydd ganolbwyntio ar gryfderau:

- plant a phobl ifanc
- athrawon
- ysgolion.



Rydyn ni eisiau i'r **cwricwlwm** newydd gael:

- Nodau clir.



- Cynnwys yr holl blant a phobl ifanc a rhoi'r addysg gorau iddyn nhw.



- Helpu pob plentyn i ddysgu a gwneud yn dda.



- Helpu plant i ddefnyddio beth maen nhw'n ddysgu ar draws gwahanol bynciau.



- Helpu athrawon i wneud newidiadau i beth a sut maen nhw'n addysgu. Ac addysgu mewn ffyrdd maen nhw'n feddwl sydd orau i'w dysgwyr.



- Bod mor hawdd i'w ddeall ag sy'n bosib.

Sut y bydd y cwricwlwm newydd yn cael ei drefnu



4 prif nod

Rydyn ni eisiau i'r **cwricwlwm** newydd gael 4 prif nod. Fe fydd popeth yn y **cwricwlwm** newydd am gyflawni'r nodau yma.

Mae'r 4 nod yn mynd i helpu plant a phobl ifanc i fod yn:



1. Dysgwyr uchelgeisiol a galluog

Mae hyn yn meddwl bod nhw'n credu ynddyn nhw'u hunain a beth maen nhw'n gallu ei wneud. Maen nhw eisiau dysgu a gwneud yn well. Mae ganddyn nhw'r sgiliau i ddysgu.



2. Arloesol a chreadigol

Mae hyn yn meddwl eu bod nhw'n gallu defnyddio eu dychymyg i feddwl am syniadau newydd. Maen nhw'n gweithio problemau allan. A defnyddio hyn yn eu gwaith.



3. Dinasyddion moesegol a gwybodus

Mae hyn yn meddwl eu bod nhw'n deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Maen nhw'n gallu cymryd rhan yn y gymuned. Maen nhw'n poeni am y byd.



4. Iach a hyderus

Mae hyn yn meddwl bod ganddyn nhw feddyliau a chyrff iach. Maen nhw'n teimlo'n dda amdany'n nhw'u hunain ac am beth maen nhw'n gredu.



Rydyn ni eisiau i'r nodau yma fod yn y ddeddf. Fe fydd hyn yn gwneud yn siŵr bod nhw'n cael eu meddwl amdany'n nhw wrth gynllunio, addysgu a dysgu.



Rydyn ni eisiau helpu ysgolion i gyflawni'r nodau yma drwy roi arweiniad iddyn nhw.



Mae hyn yn meddwl na fydd rhaid i ysgolion ddilyn y ddeddf am sut maen nhw'n cyflawni'r nodau yma. Fe fyddan nhw'n gallu gweithio tuag at y nodau yn y ffyrdd maen nhw'n feddwl sydd orau.



6 Meysydd Dysgu a Phrofiad

Rydyn ni eisiau gweld **6 Maes Dysgu a Phrofiad**. Yma fe fyddwn ni'n eu galw nhw'n **Feysydd**.

Fe fydd y **Meysydd** yma yn gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn dysgu am lawer o wahanol bynciau. Dyma nhw:



1. Celfyddydau mynegiannol

Er enghraifft celf, drama, cerddoriaeth, dawns a ffilm.



2. Iechyd a llesiant

Er enghraifft, ymarfer corff, rhywioldeb a pherthnasau, bwyta'n iach a choginio.



3. Dyniolaethau

Er enghraifft, hanes, daearyddiaeth, busnes ac addysg grefyddol.



4. Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu

Er enghraifft, sgiliau gwrando a siarad, darllen ac ysgrifennu, Ffrangeg, Saesneg a Chymraeg.



5. Mathemateg a rhifedd

Mae hyn yn meddwl mathemateg a defnyddio rhifau i weithio problemau allan.



6. Gwyddoniaeth a thechnoleg

Er enghraifft, ffiseg, cemeg, peirianeg a chyfrifiaduron.



Rydyn ni eisiau i'r 6 o **Feysydd** gael eu hysgrifennu yn y ddeddf. Mae hyn yn meddwl y bydd rhaid i ysgolion addysgu llawer o wahanol bynciau o bob **Maes**. Ac fe fydd plant yn cael addysg dda am lawer o wahanol bethau.



Fe fydd syniadau am beth y mae ysgolion yn gallu ei wneud ym mhob **Maes** yn cael ei ysgrifennu mewn canllaw. Mae hyn yn meddwl bod ysgolion yn gallu cynllunio pynciau a gwersi yn y ffyrdd maen nhw'n feddwl sydd orau.



Mae hefyd yn meddwl bod ysgolion yn gallu newid beth mae plant yn ei ddysgu pan mae pethau yn y byd yn newid. Er enghraifft, technoleg newydd.

3 Cyfrifoldebau i'r cwricwlwm cyfan

Rydyn ni eisiau i'r holl athrawon ym mhob pwnc helpu plant i ddysgu:



- **Sgiliau llythrennedd** – darllen, ysgrifennu a siarad.



- **Sgiliau rhifedd** – deall a defnyddio rhifau.



- **Sgiliau digidol** – gallu dysgu a deall technoleg. A gallu defnyddio dyfeisadau digidol. Er enghraifft cyfrifiaduron, ffonau deallus a thabledi.



Mae'r sgiliau yma yn bwysig iawn. Felly rydyn ni eisiau eu hysgrifennu yn y ddeddf.



Mae hyn yn meddwl bod **rhaid** i ysgolion addysgu'r sgiliau yma ym mhob pwnc. Fe fydd angen i athrawon helpu plant i ddysgu'r sgiliau yma pa bynnag bwnc maen nhw'n addysgu.

Datblygu drwy'r cwricwlwm



Mae **datblygu** yn meddwl gweithio drwy'r **cwricwlwm** a dysgu mwy a mwy.



Rydyn ni eisiau i'r **cwricwlwm** fod fel taith drwy addysg. Mae plant yn dysgu mwy a mwy wrth iddyn nhw fynd ar hyd y daith. Maen nhw'n symud ar hyd y daith dim ond pan maen nhw'n barod.



Mae hyn yn meddwl bod plant sydd yn barod i ddysgu yn gallu symud ymlaen i'r peth nesaf yn fwy cyflym.



Mae plant sydd eisiau mwy o amser yn gallu aros lle maen nhw tan maen nhw'n barod.



Rydyn ni eisiau defnyddio **camau datblygu** i helpu athrawoin i ddeall lle dylai plant fod ar y daith.

Fe fydd **camau datblygu** yn rhoi syniad lle dylai plant fod ar eu taith ddysgu pan maen nhw yn:

- 5 oed
- 8 oed
- 11 oed
- 14 oed
- a 16 oed.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu'r **camau datblygu** yn y ddeddf. Fe fydd rhaid i ysgolion gefnogi plant i gyrraedd ac i fynd y tu hwnt i'r **camau datblygu**.



Rydyn ni eisiau esbonio pob **cam datblygu** mewn canllaw. Ac fe fyddwn ni'n ysgrifennu **canlyniadau cyflawni** yn y canllaw hefyd.



Fe fydd y **canlyniadau cyflawni** yn dweud beth mae plant ar wahanol oedran:

- i fod i wybod
- a beth ddylen nhw allu ei wneud.



Mae hyn yn meddwl y bydd yna fwy o ryddid am lle mae plant yn eu dysgu. Fyddan nhw ddim yn cael eu brysio drwy'r **camau datblygu**.



Fe fydd plant yn cael eu cefnogi i symud drwy'r **camau datblygu** ar gyflymdra sydd yn iawn iddyn nhw. A beth maen nhw'n gallu ei wneud.



Mae'r holl newidiadau yma yn meddwl y bydd y ddeddf newydd yn dweud llai am beth sydd yn gorfod cael ei addysgu.



Fe fydd gan ysgolion fwy o ddweud yn sut maen nhw'n gwneud y **cwricwlwm**. Fe fyddan nhw'n gallu rhoi cefnogaeth yn ôl anghenion plant.

Profiadau gyrfaoedd a phrofiadau gwaith



Mae **profiadau gyrfaoedd a phrofiadau gwaith** yn helpu dysgwyr i ddeall mwy amdany'n nhw eu hunain a byd gwaith. Mae hefyd yn eu helpu nhw i ddatbygu sgiliau i wneud dewisiadau bywyd da.



Fe fydd gyrfaoedd yn rhan pwysig o **Faes Dysgu a Phrofiad** iechyd a llesiant. Ond fe fydd y 6 **Maes** yn dweud rhywbeth am brofiad gyrfaoedd a phrofiad gwaith.



Mae'r ddeddf yn dweud bod gan bobl ifanc 13 i 16 oed yr hawl:



- i ddysgu am yr faoedd a chael profiadau gwaith



- i gael arweiniad gan arbenigwyr am beth maen nhw'n gallu ei wneud ar ôl 16 oed.



Mae profiadau gyrfaoedd a phrofiadau gwaith yn rhan o'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad. Felly fe fydd yr holl blant a phobl ifanc o 3 i 16 oed yn dysgu am yrfaoedd.



Mae hyn yn meddwl y bydd yr **holl** athrawon yn helpu dysgwyr i ddeall byd gwaith. A gwneud dewisiadau da am pa waith i'w wneud yn y dyfodol.




Fe fyddan nhw'n cael eu cefnogi i wneud eu dewisiadau yn ôl:

- beth maen nhw'n dda am ei wneud
- beth maen nhw'n ei fwynhau
- pa swyddi sydd ar gael.

Addysg perthnasoedd a rhywioldeb



Fe wnaeth grŵp arbennig o arbenigwyr edrych ar sut rydyn ni'n addysgu plant am berthnasoedd a rhyw.



Fe wnaethon nhw ddweud bod ysgolion yn bennaf yn addysgu plant a phobl ifanc am:

- ffeithiau am y corff
- afiechydon rydych chi'n gallu eu cael wrth gael rhyw.



Roedden nhw'n dweud nad oedd digon yn cael ei addysgu am:

- teimladau
- beth ydy perthnasoedd iach
- gwybodaeth bwysig arall am gael perthnasoedd a rhyw iach.



Felly fe wnaethon nhw ddweud:

- Fe ddylai pob plentyn dan 16 oed gael eu haddysgu am berthnasoedd a rhyw iach pan maen nhw'r oedran cywir.



- Fe ddylai athrawon gael mwy o hyfforddiant ar sut i addysgu plant am ryw a pherthnasoedd.



- Mae angen ei alw yn **addysg perthnasoedd a rhywioldeb** yn lle addysg rhyw. Mae hyn yn siarad am fwy na rhyw. Fe fyddai'n meddwl dysgu am bethau fel hawliau a gwahanol fathau o berthnasoedd.



Rydyn ni eisiau i'r ddeddf ddweud bod **rhaidd** i blant 3-16 oed gael eu dysgu am **addysg perthnasoedd a rhyw**.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu canllaw i ysgolion am beth sydd i fod i gael ei addysgu mewn **addysg perthnasoedd a rhyw**. Fe fydd gan y canllaw wybodaeth am beth sydd rhaid ei addysgu yn ôl:

- faint ydy oed y dysgwyr
- beth maen nhw'n ei wybod yn barod
- beth mae angen iddyn nhw ei wybod
- beth ydy eu profiadau.



Rydyn ni eisiau i'r ddeddf ddweud **nad** oes rhaid i ysgolion addysgu **addysg perthnasoedd a rhyw** i ddysgwyr yn y chweched dosbarth. Rydyn ni eisiau i'r dysgwyr yma gael yr hawl i ddewis gwneud **addysg perthnasoedd a rhyw** neu beidio.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y [cwriclewm](#) newydd yn helpu i gyflawni'r 4 prif nod.



1 o'r nodau ydy gwneud plant yn **iach a hyderus**. Rydyn ni'n meddwl bod **Addysg Perthnasoedd a Rhyw** yn rhan pwysig o hyn.



Ar hyn y bryd mae rhieni yn gallu dweud **nad** ydyn nhw eisiau i'w plant gael addysg rhyw. Ond dydy plant ddim yn cael dewis.



Dydyn ni ddim yn gwybod eto beth ddylai'r ddeddf ei ddweud am rieni yn stopio eu plentyn rhag cael **Addysg Perthnasoedd a Rhyw**.

Addysg grefyddol



Rydyn ni eisiau i **addysg grefyddol** fod yn rhan o'r **Maes Dysgu a Phrofiad Dyneiddiol**.



Addysg grefyddol ydy dysgu am wahanol grefyddau a'r gwahanol bethau mae pobl yn ei gredu. Mae hyn yn meddwl credu mewn pethau nad ydyn nhw'n grefyddol yn debyg i gredu mewn crefydd. Mae'n cael ei alw yn **AG**.



Rydyn ni eisiau i'r ddeddf ddweud bod **rhaid** i bob plentyn o 3 oed gael **AG**. A hefyd plant mewn meithrinfa.



Rydyn ni eisiau i'r ddeddf ddweud bod **AG** yn cynnwys barn sydd yn debyg i grefyddau. Er enghraifft, **hiwmaniaeth** – sydd am bwysigrwydd pobl yn hytrach na duwiau.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu canllaw am beth ddylai fod mewn AG. Fe fydd rhaid i ysgolion feddwl am beth rydyn ni'n ei ddweud yn y canllaw wrth gynllunio gwersi AG. Fe fyddwn yn dweud yn glir bod angen addysgu barn crefyddol ac heb fod yn grefyddol.




Ar hyn o bryd mae'n rhaid i bob dysgwr yn y chweched dosbarth gael AG. Rydyn ni eisiau i'r gyfraith ddweud bod dysgwyr yn y chweched dosbarth yn gallu dewis cael AG neu beidio.



Ar hyn o bryd mae'r ddeddf yn dweud bod rhieni yn gallu dweud os nad ydyn nhw eisiau i'w plant gael AG. Ond dydy plant ddim yn cael dewis.



Dydyn ni ddim yn gwybod eto beth ddylai'r ddeddf ddweud am rieni yn dewis stopio eu plentyn rhag cael AG. Rydyn ni'n meddwl ei fod yn rhan bwysig o'r nod i helpu plant i fod yn iach a hyderus. Ac fe fydd nawr yn cynnwys llawer o wahanol feddyliau.



Yr iaith Gymraeg

Mae Llywodraeth Cymru eisiau cael 1 miliwn o bobl i siarad Cymraeg erbyn 2050. Mae'r **cwricwlwm** newydd yn bwysig i wneud hynny i ddigwydd.



Mae'r Gymraeg yn rhan pwysig o Gymru. Rydyn ni eisiau canolbwyntio ar bob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg.



Rydyn ni eisiau gweld 1 **cwricwlwm** ar gyfer dysgu Cymraeg. Mae hyn yn lle cael **cwricwlwm** Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith. Rydyn ni eisiau ysgrifennu hyn yn y ddeddf.



Fe fydd yr holl blant yng Nghymru yn dilyn yr un cwricwlwm ar gyfer dysgu Cymraeg. Fe fyddan nhw yn cael eu cefnogi i **ddatblygu** cymaint ag y maen nhw'n gallu.



Fe fydd hyn yn wahanol yn ôl pob plentyn a'r math o ysgol maen nhw'n mynd iddi. Er enghraifft:



- Ysgolion Cymraeg lle maen nhw'n siarad Cymraeg ym mhob gwers.



- Ysgolion Saesneg lle maen nhw'n siarad Cymraeg mewn gwersi Cymraeg.



- Ysgolion lle maen nhw'n cael rhai gwersi yn Gymraeg a rhai yn Saesneg.



Y mwyaf yr ydych yn defnyddio'r Gymraeg, y gorau fyddwch chi wrth ei defnyddio. Rydyn ni eisiau i ysgolion ddefnyddio mwy o Gymraeg.



Fe fydd rhaid inni feddwl am hyn pan fyddwn ni'n cynllunio **asesiadau** ar gyfer yr iaith Gymraeg. A sut y dylai **canlyniadau cyflawni** y Gymraeg fod mewn gwahanol fathau o ysgolion.



Fydd y newidiadau yma ddim yn gwneud llawer o wahaniaeth mewn ysgolion Gymraeg. Ond fe fydd rhaid i ysgolion Saesneg wneud rhagor yn Gymraeg.



Rydyn ni'n gwario arian ar hyfforddiant i athrawon allu defnyddio mwy o Gymraeg. Ac fe fyddwn ni'n helpu ysgolion i gynllunio ar gyfer y newidiadau yma.

Asesiad



Rydyn ni eisiau **asesiadau** i helpu dysgwyr. Fe ddylai **asesiadau** gael eu defnyddio i weld sut orau i gefnogi dysgwyr. A gyda beth y mae dysgwyr angen rhagor o help.



Ddylai **asesiadau** **ddim** cael eu defnyddio fel ffordd o benderfynu pa mor dda ydy ysgolion ac athrawon. I helpu i stopio hyn dydyn ni ddim yn anfon gwybodaeth mor aml am **asesiadau**.



Fe fydd **asesiadau** yn cael eu gwneud ar y **canlyniadau cyflawni** ar gyfer y **camau datblygu**. Y pennaeth fydd yn ysgrifennu'r **canlyniadau cyflawni**.



Nod **asesiadau** fydd gweld:

- Beth mae dysgwyr yn gallu ei wneud.
- Ar beth mae angen i ddysgwyr weithio.
- Beth mae angen i ddysgwyr ei wneud nesaf.



Fe fydd gan ysgolion fwy o reolaeth dros pryd mae dysgwyr yn cael **asesiadau**.

Geiriau anodd

Addysg Grefyddol

Addysg grefyddol ydy dysgu am wahanol grefyddau a'r gwahanol bethau mae pobl yn ei gredu. Mae hyn yn meddwl credu mewn pethau nad ydyn nhw'n grefyddol yn debyg i gredu mewn crefydd. Mae'n cael ei alw yn AG.

Asesiadau

Mae asesiadau yn cael eu gwneud i weld pa mor dda mae plant a phobl ifanc yn ei wneud yn yr ysgol.

Camau datblygu

Fe fydd camau datblygu yn rhoi syniad lle dylai plant fod ar eu taith ddysgu pan maen nhw yn:

- 5 oed
- 8 oed
- 11 oed
- 14 oed
- a 16 oed.

Canlyniadau cyflawni

Fe fydd y canlyniadau cyflawni yn dweud beth mae plant ar wahanol oedran:

- i fod i wybod
- a beth ddylen nhw allu ei wneud

Cwricwlwm

Y cwricwlwm ydy rhestr o bethau mae plant a phobl ifanc yn eu dysgu yn yr ysgol.

Datblygiad

Mae datblygiad yn meddwl gweithio drwy'r cwricwlwm a dysgu mwy a mwy.